

CREFYDDWYR AC ESGEULUSWYR LLANERCHYMEDD

gan JOHN ROBERTS

CEFAIS gip ar lyfr nodiadau bach diddorol beth amser yn ôl. Mae'n mesur tua 7¼" × 4½" gyda chlwr glas a'r geiriau *School Exercises* ar y clwr blaen. Ar y cefn mae llun o Ogor Fingal ar Ynys Staffa, enw a ddaeth yn gyfarwydd i lawer ohonom oherwydd y gerddoriaeth a gyfansoddodd Mendelssohn yn dilyn ei ymweliad â'r lle yn 1832.

Ond does a wnelo'r llyfr bach ddim oll â cherddoriaeth! Mae arbenigrwydd ei gynnyws mewn maes hollol wahanol.

Oddi mewn i'r clwr mae'r arysgrif, 'R. Thomas Gorph 1889', a nodyn pellach yn cgluro pwrpas y llyfr: 'Rhestr i ddangos pa fodd y mae trigolion Llanerchymedd (sic) a'r cylch oddeutu yn treulio y Sul, sef pwy sydd yn esgeuluso yn hollol a phwy sydd yn mynd i'r gwahanol leoedd o addoliad.'

Roedd y Parchedig Robert Thomas newydd symud i Llanerch-y-medd o blwy Llanllyfni, Arfon, lle bu'n weinidog ar ddwy eglwys yn perthyn i enwad y Methodistiaid Calfinaidd; y naill, Salem, ym mhentref Llanllyfni, a'r llall Nebo, ar Fynydd Llanllyfni. Dechreuodd 'Mr Robert Thomas, Hiraal' ar ei weinidogaeth yno yn Chwefror 1870 ar gyflog o £40 y flwyddyn, Salem yn cyfrannu £30 a Nebo £10. Roedd aelodaeth Salem yn 200 a thua 100 yn aelodau yn Nebo. Wrth ddechrau ar ei waith, wynebodd y gweinidog ifanc ddyled o £1520 yn Salem, beth bynnag oedd dyled Nebo.

Bu yn yr Ofalaeth am bron ugain mlynedd, pryd y cynyddodd aelodaeth Salem i 266 a'r ddyled yn gostwng i £1050. Mae'n ddiddorol sylwi mai'r baban olaf i'w fedyddio ganddo oedd merch fach o'r enw Ellen Griffiths, Coed Cae Du, yn 1888. Aeth y ferch honno ymhell o Lanllyfni cyn diwedd ei hoes, sef 'i Chicago'n bymtheg oed', a dyna deitl hunangofiant Mrs Ellen Evans, gan Marian Elias. Fel hyn mae'n dweud yn yr hunangofiant:

'Y Parch. G. Ceidiog Roberts oedd y Gweinidog ar hyd blynyddoedd fy ieuencid ond ei ragflaenydd, y Parch. Robert Thomas, Llanerch-y-medd, a'm bedyddiodd i ym 1888. Yr oedd yr arferiad o fedyddio â dŵr rhinweddol y Ffynnon Rhedyn wedi darford erbyn hynny.'

Sonia fel yr oedd pob sedd yn llawn ar nos Sul, ar wahân i ryw ddwy yn yr oriel. Ydi hynny'n dweud rhywbeth am lafur Robert Thomas, tybed?

Fodd bynnag, yn Ebrill 1889 derbyniodd Robert Thomas

alwad i Llanerch-y-medd, ac o fewn tri mis dechreuodd ar ei 'arolwg'.

Nododd ddiben hynny oddi mewn i'r clwr, fel y gwelsom, ac er cwblhau ei dasg hunanosodedig ymwelodd â thua 146 o gartrefi, gan gynnwys nifer o dafarndai (dywedir bod 15 ohonynt yn y pentref!). Rhestredd enwau 476 o bobl, 168 ohonynt yn blant dan 15 oed, a nodi'n fanwl, 'y gwahanol leoedd o addoliad a fynychid ganddynt.' Rhannodd bob tudalen yn golofnau taclus er mwyn cynnwys yr holl wybodaeth angenrheidiol — Enw, Cyfeiriad, Oedran, Rhyw, Mynychu, Esgeuluso, Gwybodaeth Arall. Archwiliad trwyad!

Dangosodd yr arolwg mai cyfanswm y 'mynychwyr' oedd fel a ganlyn: Methodistiaid Calfinaidd, 228; Bedyddwyr, 61; Annibynwyr, 122; Eglwyswyr, 27. At hynny, rhestrwyd 27 fel 'Esgeuluswyr'. Rhoddwyd seren gyferbyn â 105 o enwau yn dynodi, 'heb broffesu', ond eto'n honni eu bod yn mynychu oedfa. Y rhai a elwid gynt yn 'wrandawyr', mae'n siŵr.

Hawdd dychmygu'r llafur a'r blinder a achosodd yr arolwg i'r Gweinidog newydd, brwd. Roedd arno angen penderfyniad ac egni, gyda gradd o wroldeb hefyd, debyg, oherwydd doedd dim sicrwydd bod croeso yn ei aros ym mhob tŷ. Ond mewn gwirionedd, dewisodd Robert Thomas ffordd effeithiol o ddod i adnabod ardal newydd, ac ar yr un pryd, rhoi cyfle i'r ardalwyr ddod i'w adnabod yntau. Tybed a oedd ganddo amcan arall hefyd? Cenhadu, efallai, o gofio am ei ddefnydd o'r gair *esgeuluso*.

Ond y mae rhagor nag ystadegau moel yn y Rhestr. Cawn ynddi ddrych o fywyd pentref ac ardal y Môn ychydig dros ganrif yn ôl. Yng ngholofn y Cyfeiriadau gwelir enwau disgwylidig fel Penygraig, Penybont, Twrcelyn, a'u tebyg, ond ceir hefyd enwau Saesneg; tafarndai fel King's Head, Ship, Central Hotel a Llwydiarth Arms. A masnachdai, mae'n siŵr, fel Victoria House a London House. Ond o ble y daeth Wilpole yn enw ar fferm?

Ymysg y galwedigaethau a nodwyd ceir amryw, fel y gellid disgwyl, a alwodd Robert Thomas yn 'gwas' a 'morwyn', nid ar ffermydd yn unig, wrth gwrs, ond mewn tai a siopau a sefydliadau eraill hefyd. Clywsom lawer am gryddion

Llanerch-y-medd, ond dim ond un a restrir yma, ac un cloeciwr at hynny. Ond ceir sawl *ironmonger*, *printer*, teiliwr (dyfynnir sillafiad R.T.), ac un cyfaill yn haeddu'r disgrifiad uwchraddol 'Bank', un arall, 'Post Office'. Creadur mwy dinod oedd hwnnw a elwir yn 'postman' efallai. Un 'Clerk' a welir; dim cymaint o waith papur yn yr oes honno, mae'n debyg. Ond yr oedd tri 'Coal Merchant'.

Ceir blas y pridd, wrth gwrs, ar amryw o'r galwedigaethau a restrir: *cattle dealer*, *gof*, *currier*, *farmer* and *grocer* (gŵr â dwy rwyf i'w gwch?). Gelwir un yn 'Cweiriwr', ond does yr un ffariar. Eto, pwy sydd i ddweud beth a guddiai dan alwedigaethau fel 'farmer'?

Roedd teuluoedd mawrion yn gyffredin yn Llanerch-y-medd fel mewn ardaloedd gwledig eraill yn yr oes honno; roedd gan y Gweinidog ei hun saith o blant. Cyffredin iawn oedd teuluoedd o rhwng chwech ac wyth o blant, gyda rhyw ddeunaw mis rhwng y gwahanol frodyr a chwiorydd. Dangosodd y Gweinidog oedranau'r plant yn fanwl; yr hynaf, efallai, yn 14 neu 15 oed, a'r ieuengaf (a nodir weithiau fel *baby*) yn ddim mwy nag ychydig fisoedd oed. A doedd gan yr un o'r gwragedd beiriant golchi!

Mae'r Gweinidog ymroddgar hwn wedi ychwanegu sylwadau byrion, dadlennol yma ac acw. Un gŵr yn unig a nodir fel 'Sais', a hwnnw'n mynychu capel y

Bedyddwyr. Mae rhai o'r sylwadau yn codi chwilfrydedd y darlennydd heddiw; er enghraifft, busai'n ddiddorol cael gwybod am y teulu hwnnw lle'r oedd chwech o blant rhwng 2½ a 13 oed, ond heb enw na thad na mam ar eu cyfyl, dim ond nodyn swta, 'I'r Ysgol', sef Ysgol Sul y Methodistiaid Calfinaidd. Pam y distawrwydd ynglŷn â'r rhieni? Wel, cawn ddyfalu, mae'n siŵr.

Diau i'r ymchwilydd gael amryw o esgusodion-dal-dŵr dros fethiant rhai a holwyd i fynychu lle o addoliad. Eto, mae tristwch y tu ôl i rai o'r rhesymau, fel hwn sy'n ymddangos nifer o weithiau: 'Dim Dillad'. Ni fentrair neb, pa mor anystyriol hynnag oedd o, i oedfa heb wisgo'n daclus yn yr oes ddefosiynol honno. Gwelir bod amryw o'r ardalwyr yn 'orweddiog'. Un brwd yn 83 oed ac yn 'gorwedd ers 17ml.', ac un arall 'yn gorwedd ers 24ml'. Beth oedd y rhesymau tybed? Mae'n anodd meddwl am neb yn gorwedd am flynyddoedd meithion felly. Ond bu Siôn Wyn o Eifion yn drech na neb yn Llanerch-y-medd, gan dreulio pum mlynedd ar hugain yn ei wely!

Gyferbyn ag enw un o hil yr 'Esgeuluswyr' ceir y geiriau 'Wedi tramgwyddo efo'r anibynwyr (sic)'. Does dim newydd dan yr haul!

Pa ddefnydd bynnag a wnaeth y Parch. Robert Thomas o'r wybodaeth a gasglodd, mae lle i ddiolch iddo am adael darlun o'i gyfnod i ni.

YN EISIAU

Y Niwl, y Nos a'r Ynys; Alun Llywelyn-Williams. Llyfrau'r Dryw, 1964.

Gramadegau'r Penceirddiaid; casglwyd a golygydd gan G. J. Williams ac E. J. Jones. Gwasg Prifysgol Cymru, 1934.

The Welsh Nationalist Party 1925-45: a call to nationhood; D. Hywel Davies. Gwasg Prifysgol Cymru, 1983.

The Forerunner: the dilemmas of Tom Ellis 1859-1899; Neville Masterman. Christopher Davies, 1972.

Y Gwyddonydd; Cyfrol 23, Rhif 1 (Haf 1985); Cyfrol 23, Rhif 2 (Gaeaf 1985-86); Cyfrol 24, Rhif 2 (Gaeaf 1986-87); Cyfrol 24, Rhif 3 (Gwanwyn 1987).

Dr Emyr Wyn Jones, Carreg Lafain Bach, Y Rhiw, Pwllhell, Gwynedd LL53 8AG. Ffôn: (01758) 780253.

Gaudy Welsh China; Howard V. Williams. Wallace-Homeslead Book Company, 1978.

The Collector's Encyclopaedia of Gaudy Dutch and Welsh; John A. Shuman. Collector Books, 1991.

The Welsh Terrier (Daeargi Cymraeg) handbook . . .; I. Morlais Thomas. Llundain, Nicholson a Watson, 1959. Rhif 26 yn y gyfres *The Dog Lover's Library*.

Richard Lewis, 40 Maes Ceiro, Bow Street, Ceredigion SY24 5BG. Ffôn: (01970) 828102.

* * * * *
Y Wladfa; R. Bryn Williams. Gwasg Prifysgol Cymru, 1992.
Ar Lannau'r Camwy; W. Meloch Hughes. Gwasg y Brython, Lerpwl, 1927.
Cerddi Eryri; Cameddog. (Ni wn pwy oedd y cyhoeddwr). Rhys Jones, Llys Myrddin, Llangefni, Ynys Môn LL77 7TQ. Ffôn: (01248) 723315.